# Diwrnod i’r Brenin ym Mharc Gelli Gyffwrdd!

Roedd fy mab 13 oed a’i ffrind ymhlith y lliaws o bobl ifanc o Ynys Môn a gafodd ddiwrnod i’w gofio yn Gelli Gyffwrdd diolch i Wasanaeth Cynnal Gofalwyr. Roedd y tywydd ar eu hochr, ac roedd cael taith ychwanegol ar ddiwedd gwyliau’r Haf pan oedd yr arian ar ei dynnaf yn hynod o beth.

Mae’n anodd i mi, fel gweddw a gofalydd sengl, i ddod o hyd i’r egni i hwyluso teithiau fel hyn ar fy mhen fy hun. Roedd hi mor braf gwybod y byddai teuluoedd eraill hefyd yn mynd ac y byddai staff Cynnal Gofalwyr wrth law. Wrth gwrs, pan gyrhaeddon ni’r lle, gwelsom bobl eraill yr oedden ni’n eu hadnabod, ac roedd awyrgylch cyfeillgar a chefnogol ar hyd a lled y parc. Roeddwn i hefyd yn arbennig o ddiolchgar bod fy mab wedi medru dod â ffrind gydag ef. Mae’n unig blentyn, felly roedd rhannu’r profiad â rhywun o’r un oed ag ef yn coroni’r diwrnod.

Mae gan Gelli Gyffwrdd gymysgedd dda o weithgareddau, ac rwy’n credu y byddai rhai’n addas i’r mwyafrif o blant ifanc ag anableddau. Y ffefryn heb os nac oni bai oedd y “solar splash” newydd.

Rwy’n credu bod ariannu diwrnodau allan o’r fath yn fuddiol iawn. Yn ogystal â rhoi rhywbeth i rywun edrych ymlaen ato, mae’r atgofion melys hefyd yn helpu mewn amserau anodd o boen, salwch ac anobaith. Hoffwn longyfarch Cynnal Gofalwyr ar ddigwyddiad llwyddiannus, ac rwy’n gobeithio y byddan nhw’n medru darparu mwy o weithgareddau i bobl ifanc a’u gofalwyr yn y dyfodol.